

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 9fed o Orffennaf 2019

1. **Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Justin Davies, Dylan Herbert, Erfyl Williams – Penygroes; Harry Wyn Owen, Sia Dafydd – Talysarn; Hefina M W Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Grant Peisley eitem 3; Judith Humphreys – Cynghorydd Sir/ **Ymddiheuriadau:** Iona Jones – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir.
2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb.
3. **Gwadd: Grant Peisley** (Datblygiadau Egni Gwledig) Cafwyd cyflwyniad a thrafodaeth am bryderon newid hinsawdd, a ffyrdd o wneud gwahaniaeth i'r argyfwng. Ynni, trafndiaeth, amaeth, diwydiant, gwres a gwastraff. Dywedodd Grant fod 19 Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd yng Nghymru. Gofynwyd i'r Cyngor Cymuned os y byddai yn fodlon adnabod yr argyfwng a datgan argyfwng hinsawdd, a chydweithio efo a dylanwadu ar drigolion/busnesau/awdurdodau/cynghorwyr. Y Cyngor yn cefnogi mewn egwyddor. Penderfynwyd bod angen ail gyfarfod mewn lle cyfleus i drafod ymhellach.
4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mehefin.** Angen cywiro OHP i OPH. Cam-sillafu yn y gair 'trydan'. Pawb yn cytuno fod y cofnodion yn gywir.
5. **Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig gan y Cynghorydd Judith Humphreys. OPH yn cynnig datgan cefnogaeth y Cyngor Cymuned i Annibyniaeth i Gymru. Dylan yn eilio. Cafwyd pleidlais, a'r mwyafrif o blaid. Cytylltu efo ymgyrch 'Yes Cymru'. Gofynwyd i Judith holi Cyngor Gwynedd os oes rheswm pam na all Penygroes fod yn ardal 15mya fel Talysarn. Angen cyfarfod efo Ffrindiau Penygroes i drafod syniadau. Judith am drefnu cyfarfod.
6. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Mwy o gwynion yn codi am barcio wrth y Co-op newydd – parhau i bwysu ar Cyngor Gwynedd am folardiau; Nodi fod llai o loriau yn teithio o Tyddyn Agnes rwan; Darllenwyd ebyst yn ymateb i'r cwynion a yrrwyd mis Mehefin.
7. **Materion Pentrefi Llanllyfni** – Lon o Llanllyfni rhwng Bryn Ffynnon a Felin Gerrig – coed mwyar yn dod allan dros y wal ac yn beryglus ar bwys y palmant; Penygroes Ceir yn parcio o flaen y Co-op newydd ar y llinellau dwbl. Ceir yn parcio ar y palmant wrth Soar; Pryder am gynllun Cyngor Gwynedd i ddirwyo am adael gwastraff – gofyn i Gyngor Gwynedd os ydyn nhw yn sicrhau fod y gweithwyr yn codi ysbwriel ailgylchu ar eu holau.
8. **Taflen Ariannol a Chyllid/Cyfrifon.** Cymeradwywyd.
9. **Sedd Wag** Dim etholiad. Enw wedi dod ymlaen i'r Cyngor – cyfetholwyd Gareth Jones yn aelod newydd i gynrychioli Talysarn.
10. **Cynllunio:** C19/0542/22/LL – Penrhiw, Penygroes – cais ar gyfer estyniadau i gefn annedd yn dilyn gwrthodiad o gais C19/0201/22/LL - caniatâu; C19/0597/22/LL – 2, Sea View Terrace, Rhiwlas Road, Talysarn – cais ar gyfer codi ystafell haul ar flaen yr eiddo - caniatâu.
11. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis:** Cylch Gorchwyl – cadarnhawyd y dogfennau; Cyfarfod Mynwentydd – argymhellion prisiau claddu – argymhelliad yr is bwyllgor oedd cynyddu prisiau claddu ychydig, a rhoddwyd y prisiau newydd arfaethedig o flaen y Cyngor – y Cyngor llawn yn cytuno, ac felly y prisiau newydd yn weithredol. Asesiad Risg – cadarnhawyd asesiad risg y Cyngor am y flwyddyn, Cytundeb Pori – y ddogfen bron yn barod, gyda chymalau i unrhyw denant i'r cae – cadarnhaodd y Cyngor y byddai'r gytundeb ar gyfer pori defaid yn unig, fod gan y Cyngor yr hawl i derfyn y gytundeb ar fis o rybudd, a fod y gytundeb yn rhedeg at ddiwedd Mawrth; Prosiect MacPelah – argymhell i'r Cyngor llawn ein bod yn gwneud cais am fenthyciad ar gyfer gorffen y gwaith yn MacPelah. Penderfynwyd y byddwn yn cysylltu efo Mark Ballam a gofyn wrtho os y byddai yn fodlon arwain. Pawb yn cytuno; Argymhellodd yr is-bwyllbor i'r Cyngor Cymuned gynnal ymgyrch yn y mynwentydd i bobl fynd a'u gwastraff adref. Gofynwyd i Justin gynllunio logo. Pawb yn derbyn.
12. **Goleuadau Nadolig.** Dylan wedi cyfarfod efo Steffan (Cyngor Gwynedd) ynglyn a gosod. Y polion golau wedi eu uwchraddio i LED yn barod, felly methu gwneud y gwaith 'run pryd. Cafwyd pris o £250 y polyn - £3000 wedi ei glustnodi yn y gyllideb eleni. Dylan i drefnu lleoliadau yn y 4 pentref ar gyfer y gwariant. Cynllun tymor hir yw hwn, a phenderfynwyd cael cyfle i drafod prynu goleuadau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
13. **Rhododendron Cors y Llyn** Y Pwyllgor pentref am gysylltu efo'r rhai sydd efo hawl pori ar y gors i'w hysbysu o'r bwriad i drin rhododendron drwy gydweithrediad efo'r Parc Cenedlaethol.

14. Arolwg Tai Penderfynwyd cynnal cyfarfod – Cadeirydd y Cyngor, Hwylusydd Tai (Arwel Wyn Owen), Cyngowyr Sir, Grwp Cynefin i drafod ymhellach wyneb yn wyneb.

15. Clwb Ieuentid: Sion Bryn (Swyddog Ieuentid Cymunedol) a Nia Morris o Gyngor Gwynedd yn cyflwyno i'r Cyngor opsiynau gwasanaeth ieuentid ar gyfer y flwyddyn nesaf. Trafodwyd mewn manylder yr heriau a oedd wedi wynebu'r gwasanaeth yn y Dyffryn y flwyddyn ddiwethaf. Problemau staffio, niferoedd yn mynychu, problemau agwedd. Er mwyn cadw'r un ddarpariaeth am flwyddyn arall, byddai costau yn cynyddu yn sylweddol. Byddai cyfrifoldeb am ddifrod ac ati yn disgyn ar y Cyngor Cymuned. Rhaid ystyried Iwth Pen yn y cyd-destyn yma. Bu llawer o gwyno am ymddygiad y plant yn y flwyddyn ddiwethaf. Opsiwn arall i'r Cyngor oedd cyfrannu tuag at sesiynnau ychwanegol o'r prosiect 'roaming' ble mae gweithgareddau penodol yn cael eu trefnu i'r ieuentid. Amrywiaeth o goginio, graffiti, chwaraeon. Cyngor Gwynedd yn ariannu, a tua 30 o blant yn mynychu. Bryn a Nia yn gadael y cyfarfod – trafododd y Cyngorwyr ymhellach, a phenderfynwyd y byddai y Cyngor Cymuned yn ariannu chwech sesiwn ychwanegol gydag uchafswm o £1200 – bydd hyn yn ymestyn beth mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu. Pawb yn cytuno. Cynnig Plas Silyn fel lleoliad i'w gysidro. Y Cyngor Cymuned yn datgan fod Iwth Pen yn darparu gwasanaeth ieuentid yn ogystal, ac y dylid adolygu faint mae'r Cyngor yn ei gyfrannu iddyn nhw adeg trafod ceisiadau am arian.

16. Gwasanaeth Post Symudol Y Cyngor o'r farn mai y fan yw'r opsiwn gorau, a fod gan y Cyngor gynllun y gallwn ei awgrymu ar gyfer amserlen ymweliadau.

17. Cofeb R Williams Parry Argymhellion NALC – holi yswiriant ac Un Llais.

18. Polisi Iaith yr Heddlu Pawb yn hapus gyda llythyr OP Huws, ac yn hapus iddo gael ei anfon.

19. Gohebiaeth

***Cyngor Gwynedd:**

* Cais am gynrychiolydd - Cronfa Bensiwn Gwynedd. Neb yn rhoi ei enw ymlaen.

*Arolwg Dosbarthiadau a Mannau Pleidleisio (Etholiad Seneddol). Dim sylwadau.

*Gwaharddiad Trafnidiaeth – Ffordd B4418 Nantlle i Drws y Coed. Er gwybodaeth.

***Arall**

Un Llais: Enwebu coeden arbennig; Adnewyddu Democratiaeth; Arolwg Gofalwyr Ymddiriedolaeth Gig; Bwletin Un Llais; Cynrychiolaethar Fwrdd Betsi Cadwaladr; Gofalu Trwy'r Gymraeg; Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hyn; Comisiynydd Gwybodaeth; Trefniadau Awdit Mewnol; Rhyddhau Trethi ar Gyfer Toileau Cyhoeddus. Rhannwyd yr wybodaeth yn ystod y mis,

*Cais – holiadur gwaith ymchwil traethawd Prifysgol – Ail Gartrefi. Darllenwyd yr ebost.

*Nosweithiau Awdudrod Parc Cenedlaethol Eryri. Er gwybodaeth.

*Clerks and Councils Direct. Ar y bwrdd.

20. Llwybrau a Mynwentydd Ymateb Cyngor Gwynedd Llwybr Llwydcoed. Darllenwyd yr ebost. Gofyn i dorri Hen Lon o Bron Haul i Graianfryn, Llanllyfni.

21. Materion yn ymweud a'r heddlu. Dim yn codi.

22. Materion ariannol – Biliau – A Johnson Ffon/Rhyngwyr £25; A Johnson derbynebaw. Cytunwyd eu talu.

23. Ceisiadau am Arian – Dim. Mis Medi – gwahodd pwyllgor y Gaolfan Iechyd i'n cyfarfod. Judith yn cysylltu.